

Dioddefwyr a Theulu a Ffrindiau Dioddefwyr – Gwrandawiadau Parôl

Taflen Wybodaeth

Introduction



Rwyf yn hynod ymwybodol, ar ôl siarad ag amryw o ddiodefwyr, bod y Broses Barôl a'r penderfyniadau a wneir yn gallu cael effaith sylweddol arnynt.

Dyna pam fod y Bwrdd Parôl wedi ymrwymo i sicrhau bod diodefwyr yn cael eu trin yn sensitif a gyda pharch. Yr hyn sy'n greiddiol yw sicrhau eu bod yn derbyn gwybodaeth am eu hawliau. Mae hefyd yn bwysig eu bod yn gallu cyfrannu at y broses barôl os ydynt am wneud hynny.

Mae Hawl 11 y Cod Ymarfer i Ddiodefwyr Troseddu yng Nghymru a Lloegr yn cynnwys cyfres o ddyletswyddau y mae'n rhaid i'r Bwrdd Parôl gydymffurfio â nhw.

Rhestrir y dyletswyddau hyn yn y blwch gyferbyn.

Mae cael at yr hawliau hyn yn dibynnu'n bennaf ar ddiodefwyr yn cofrestru ar y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr sy'n cael ei redeg gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac anogwn ddiodefwyr yn gryf i gofrestru er mwyn sicrhau eu hawliau a chael eu diweddarau'n gyson. Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth a fydd, gobeithio, yn ddefnyddiol ond mae yma hefyd wybodaeth am ble i ddod o hyd i fwy o fanylion.

Mae pandemig Covid-19 wedi cyflwyno nifer o heriau ond un datblygiad cadarnhaol yw bod llawer mwy o ddiodefwyr yn gallu darllen eu datganiad allan o bell, o gartre' neu o rywle arall y tu allan i'r carchar, sy'n gwella mynediad i ddiodefwyr sydd am fod yn rhan o'r broses. Bydd hyn yn parhau i fod yn opsiwn yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd Parôl wedi ymrwymo i sicrhau y gwnawn ein gorau i wneud y broses barôl mor hygyrch a dealladwy â phosib i ddiodefwyr, a'r gobaith yw y bydd y daflen hon a'r wybodaeth ar ein gwefan yn helpu gyda hynny.

Martin Jones
Prif Swyddog Gweithredol
Bwrdd Parôl Cymru a Lloegr

Victim Entitlements under the Code

Rhaid i'r Bwrdd Parôl:

- ystyried holl sylwadau'r dioddefwr am amodau trwydded troseddwr; lle gofynnodd dioddefwr am amod ar drwydded sydd heb gael ei gynnwys, neu sydd wedi'i newid, gan roi esboniad am y rheswm dros beidio â chynnwys, neu dros newid yr amod;
- darllen y Datganiad Personol Dioddefwr (VPS) os oes un wedi'i gyflwyno;
- ystyried unrhyw gais gan y dioddefwr i gael mynychu'r gwrandawriad (llafar) a darllen eu Datganiad Personol, neu i gael rhywun arall i'w ddarllen ar eu rhan;
- oni bai fod rheswm da dros beidio, cytuno i'r datganiad gael ei ddarllen yn y gwrandawriad gan y dioddefwr neu rywun arall ar eu rhan;
- darparu crynodeb o'r penderfyniad parôl os gofynnir am un, oni bai fod rheswm da dros beidio â darparu un.

Gallwch ddarllen y Cod yn llawn yma:

Cod Dioddefwyr yr Moj 2020:

<https://assets.publishing.service.gov.uk/government/>

Victim Contact Scheme and Victim Personal Statement

Y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr

Mae'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr (VCS) yn cael ei redeg gan y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Mae'n gwbl ar wahân i'r Bwrdd Parôl. Gallwch gofrestru ar y VCS os:

- rydych wedi dioddef (dioddefwr) trosedd treisgar neu rywiol, a
- mae'r troseddwr wedi'i ddedfrydu i 12 mis neu fwy o garchar



Mwy o wybodaeth ar gael yma:

<https://www.gov.uk/get-support-as-a-victim-of-crime>

Datganiad personol dioddefwr

Os oes gennych hawl statudol i'r VCS, hynny yw os cafwyd yn euog o drosedd rhywiol neu dreisgar ac yn dal i fod yn y carchar am y trosedd, byddwch yn gallu cyflwyno datganiad ysgrifenedig o'r enw Datganiad Personol Dioddefwr (VPS). Bydd eich Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (VLO) yn eich cynorthwyo gyda hwn.

Bydd eich VLO yn rhoi gwybod i chi pan fydd gan y carcharor adolygiad par ôl. Bydd y VLO hefyd yn dweud erbyn pryd y bydd angen i chi gwblhau eich VPS, os dymunwch wneud un. Peidiwch â chysylltu â'r Bwrdd Parôl i drafod hyn.



Rhoddir mwy o wybodaeth am sut i ysgrifennu VPS, a beth y byddwch efallai am ei gynnwys ynddo, yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/parole-board-information-booklet-for-victims>

Gwybodaeth am risg

Os oes gennych wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r risg a gyflwynir gan y carcharor ar hyn o bryd, dylech ei rhannu gyda'ch VLO cyn gynted â phosib. Er enghraifft, gallai gynnwys gwybodaeth am gyfathrebu neu gyswllt dieisiau gan y carcharor. Bydd eich VLO yn ei basio ymlaen i'r awdurdodau priodol, fel arfer i'r Gwasanaeth Prawf, i'w ystyried a'i gyflwyno fel tystiolaeth. Mae'n bwysig iawn i chi beidio â chynnwys y wybodaeth yma yn eich VPS.

Os teimlwch eich bod mewn unrhyw berygl taer, dylech ffonio'r heddlu.

Cyflwyno eich datganiad personol dioddefwr

Bydd eich VLO yn rhoi gwybod i chi pan fydd yn bryd i chi gyflwyno eich VPS. Gallai gymryd mwy o amser nag y meddyliwch i fynegi eich hun fel y byddech yn ei ddymuno. Mae'n bwysig iawn eich bod yn cyflwyno eich VPS mewn pryd.

Os byddwch yn cyflwyno eich VPS yn hwyr, mae gwir berygl y bydd y Bwrdd Parôl eisoes wedi cwblhau'r adolygiad a gwneud eu penderfyniad. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, ni fydd cyfle arall i ystyried eich VPS. Y rheswm am hyn yw y bydd y Bwrdd Parôl wedi cwblhau'r adolygiad parôl ac yn methu â gwneud unrhyw beth pellach.

Peidio â datgelu

Y brif egwyddor yw y gall y carcharor weld yr holl wybodaeth y bydd y Bwrdd Parôl yn ei ystyried, gan gynnwys eich VPS. Os nad ydych am i'r carcharor weld eich VPS, gallwch wneud cais am i'r datganiad gael ei gadw'n ôl, drwy wneud cais peidio â datgelu.

Mae angen dilyn rheolau ar hyn. Maen nhw'n cynnwys amserlen gaeth ar gyfer gwneud y cais, a dylech roi rhesymau penodol pam y dylid cadw'r wybodaeth yn ôl rhag y troseddwr. Bydd eich VLO yn gallu egluro'r broses i chi. Gall y VLO hefyd ddweud wrthy ch a yw eich cais yn cwrdd â'r meini prawf ac a oes amser i wneud cais.

Mae eich VPS yn bwysig

Yn aml iawn mae dioddefwyr yn gofyn sut y mae'r Bwrdd Parôl yn defnyddio'r VPS. Gall hyn weithiau fod yn anodd ei ddeall ond gall VPS:

- roi syniad iawn i'r Bwrdd Parôl o'r niwed a achoswyd gan y trosedd
- helpu'r Bwrdd Parôl i ddeall beth yw effaith barhaus y trosedd
- rhoi gwybodaeth werthfawr am unrhyw amodau trwydded a ofynnwyd amdanynt



Gallwch ddarllen mwy am hyn yma:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/842408/How_is_a_Victim_Personal_Statement_used_by_the_Parole_Board_-_February_2018.pdf

Presenting your Victim Personal Statement and Requesting Licence Conditions

Cyflwyno eich datganiad personol dioddefwr pan gynhelir gwrandawriad llafar sydd ond yn digwydd mewn tua 40% o achosion

Bydd y Bwrdd Parôl yn darllen eich VPS bob tro os yw'n cael ei gyflwyno ar amser.

Os bwriedir ystyried achos y carcharor mewn gwrandawriad llafar, gallwch ddewis sut yr hoffech i'ch VPS gael ei gyflwyno. Yn ogystal â'r copi ysgrifenedig fydd gan y Bwrdd Parôl eisoes, mae'r opsiynau canlynol ar gael:

- Gallwch ddibynnu ar y copi ysgrifenedig o'r VPS fydd gan y Bwrdd Parôl yn barod;
- Gallwch ofyn am gael darllen eich VPS allan yn uchel, o bell. Gallai hyn fod o'ch cartre', yn defnyddio technoleg fel Skype/Microsoft Teams/Zoom. Neu gallai fod dros y ffôn. Gallai hefyd fod o swyddfa leol y Gwasanaeth Prawf, neu o rywle arall, gyda chefnogaeth eich VLO;
- Gallwch ofyn am fod yn bresennol yn y gwrandawriad os yw'n digwydd yn y carchar, a darllen y VPS allan eich hun;
- Gallwch ofyn am fod yn bresennol yn y gwrandawriad os yw'n digwydd yn y carchar, a chael rhywun arall i ddarllen eich VPS allan ar eich rhan;
- Gallwch ofyn i rywun arall fynychu'r gwrandawriad (o bell neu yn y carchar) i ddarllen eich VPS allan ar eich rhan, ond heb orfod mynd eich hun;
- Gallwch ofyn am recordio eich hun yn darllen y datganiad ymlaen llawn, naill ai fel fideo neu glip sain, i gael ei chwarae yn y gwrandawriad.

Bydd eich VLO yn egluro'r opsiynau uchod i gyd ac yn eich cynorthwyo drwy wneud y trefniadau angenrheidiol, yn ôl eich dymuniad.

Mae llawer o wrandawriadau llafar bellach yn cael eu cynnal o bell a llawer llai'n digwydd yn y carchar ei hun gyda phawb yn bresennol yn yr ystafell. Byddwch bob tro'n cael yr opsiwn o gyfrannu o bell, fel na fydd raid i chi fynd i'r carchar eich hun.

Gallwch ofyn i berthynas neu ffrind eich cynorthwyo ar y diwrnod. Bydd angen i ni wybod enw'r person hwn neu hon, yn enwedig os bwriadwch fynd i'r carchar, oherwydd bydd angen gofyn am ganiatâd gan Lywodraethwr y Carchar.

Bydd Cynrychiolydd Cymorth Dioddefwyr yr Ysgrifennydd Gwladol yno i'ch cynorthwyo ar y diwrnod. Nhw fydd yn gyfrifol am drefnu i chi ymuno ag unrhyw wrandawriad o bell, neu i fynychu'r carchar. Eu gwaith nhw fydd sicrhau bod eich profiad mor ddi-drafferth â phosib. Bydd eich VLO yn dweud wrthyhch pwy fydd y person yma.

Meddyliwch a ydych eisiau i'r carcharor fod yn bresennol pan fyddwch yn darllen eich datganiad allan. Bydd y Bwrdd Parôl a'r carcharor yn cael gwybod eich dymuniad, er mai'r Bwrdd Parôl fydd yn penderfynu'n derfynol. Weithiau, gallai carcharor wrthod darllen VPS neu fynychu darlleniad ohono mewn gwrandawriad llafar. Ni all y Bwrdd Parôl orfodi carcharor i wneud hyn.

Byddwch bob tro'n cael gwybod ymlaen llaw beth fydd y trefniadau.

- **Mae'n bwysig nodi y byddwch ond yn cael darllen y datganiad ysgrifenedig a gyflwynoch. Ni fyddwch yn cael ychwanegu dim byd newydd ato na newid eich datganiad ar y diwrnod.**
- **Fel arfer bydd y Bwrdd Parôl yn gofyn i'r datganiad gael ei ddarllen ar ddechrau'r gwrandawriad, yna byddwch yn gadael a'r gwrandawriad yn parhau.**

Os byddwch yn mynychu gwrandawriad llafar yn bersonol yn y carchar, gallwch hawlio costau teithio. Bydd eich VLO yn gallu rhoi'r ffurflen hawlio i chi.

Gofyn am amodau trwydded

Gallwch ofyn am ychwanegu amodau at drwydded carcharor os yw'r carcharor yn cael ei ystyried ar gyfer rhyddhau.

Bydd eich VLO yn rhoi cyngor ar amodau posib. Fel arfer, y rhain fydd naill ai:

- **Ardaloedd gwahardd** – yn gwahardd y carcharor rhag mynd i rai ardaloedd, er enghraifft lle'r ydych yn byw neu'n gweithio. Rhaid i'r Bwrdd Parôl ystyried y rhain a byddai'n ddefnyddiol pe bai ganddynt gymaint o wybodaeth â phosib am y rhesymau dros fod eisiau'r ardaloedd gwahardd hyn er mwyn gallu asesu a ydyn nhw'n rhesymol.
- **Dim cyswllt** – yn gwahardd y carcharor rhag cysylltu gyda chi neu aelodau o'ch teulu, naill ai'n union neu'n anuniongyrchol.

Mae'r Bwrdd Parôl yn ystyried ceisiadau am amodau trwydded yn ofalus iawn. Rhaid iddyn nhw sicrhau eu bod yn gyfreithlon, ond gan roi tawelwch meddwl i chi a'ch cadw'n ddiogel (yn gorfforol a meddyliol) yr un pryd.

Dylai amodau trwydded helpu'r carcharor i fod yn llai tebygol o ail-droseddu a rhoi cyfle iddyn nhw ail-ymuno'n ystyrllon â chymdeithas. Y brif ystyriaeth yw na ddylai amodau gael eu gweld fel cosb.

Os na fydd rhywbeth y gwnaethoch ofyn amdano'n cael ei ganiatáu, bydd penderfyniad y Bwrdd Parôl yn egluro pam. Bydd eich VLO yn egluro'r rhesymau wrthyhch.

Decision Summaries and the Reconsideration Mechanism

Mae'n bwysig eich bod yn trafod manylion eich cais gyda'ch VLO, gan roi gwybodaeth i ddangos pam fod angen yr amodau ar y drwydded. Gallwch gyflwyno gwybodaeth am drefn eich diwrnod a'ch lleoliad, ac effaith bosib dod ar draws y carcharor, gan egluro pam y byddai'r amodau ar y drwydded yn gwneud i chi deimlo'n fwy diogel.

Crynodeb o Benderfyniad y Bwrdd Parôl (PBDS)

Mae gennych hawl i ofyn am gael crynodeb o lythyr y penderfyniad parôl.

Gallwch ofyn am hwn cyn gynted ag y byddwch yn gwybod bod adolygiad parôl i gael ei gynnal. Bydd eich cais yn cael ei gadw hyd nes y bydd crynodeb o'r penderfyniad ar gael i'w anfon atoch.

Gallwch hefyd aros tan ar ôl y gwrandawriad os nad ydych yn siŵr a ydych eisiau ei weld. Ond rhaid i chi wneud eich cais o fewn chwe mis i'r penderfyniad.



Bydd Crynodeb o Benderfyniad y Bwrdd Parôl yn helpu i egluro penderfyniad y Bwrdd Parôl.

Bydd eich VLO yn gallu eich helpu i ofyn am hwn. Rhoddir mwy o fanylion am Grynoded o Benderfyniadau'r Bwrdd Parôl yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/decision-summaries>

Opsiwn Ail-ystyried

Yn aml iawn bydd penderfyniad y Bwrdd Parôl yn un dros dro am 21 diwrnod calendr, a bydd yn bosib iddo gael ei asesu ar gyfer ail-ystyried. Gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ofyn i'r Bwrdd Parôl ail-ystyried penderfyniad yn ystod yr amser hwn, os gellir dadlau:

- na chafodd y broses gywir ei dilyn
- bod y penderfyniad yn un afresymol

Gallwch ofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol am gael gwneud cais i ail-ystyried oherwydd bod y penderfyniad yn eich barn chi'n cwrdd ag unrhyw un o'r ddau brawf hwn.

Rhaid i chi ofyn hyn cyn gynted â phosib ond yn sicr o fewn y ffenestr dros dro o 21 diwrnod. Bydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried eich cais o fewn yr amser hwn, sy'n amser byr iawn.

What the Parole Board does not do

Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol ond yn gwneud cais i'r Bwrdd Parôl os oes tystiolaeth bod y meini prawf llym iawn wedi eu cwrdd. Nid yw bod yn anhapus â'r penderfyniad yn sail dros ei ail-ystyried.

Gall carcharor hefyd ofyn am ail-ystyried penderfyniad i beidio eu rhyddhau.

Mwy o wybodaeth

Rhoddir mwy o wybodaeth am yr opsiwn ail-ystyried ar ein tudalen we yma:
<https://www.gov.uk/guidance/challenge-a-parole-decision>

Beth nad yw'r Bwrdd Parôl yn gyfrifol amdano

Gall y System Cyfiawnder Troseddol fod yn eithaf dryslyd gyda'r holl wahanol sefydliadau'n gyfrifol am wahanol bethau. Bydd eich VLO yn gallu helpu i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

Dyma rai pethau nad yw'r Bwrdd Parôl yn gyfrifol amdanynt:

- **Cyswllt uniongyrchol â dioddefwyr** - Y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr sy'n llwyr gyfrifol am rôl dioddefwyr yn y broses barôl. Swyddogion VLO sy'n gyfrifol am sicrhau bod dioddefwyr a gofrestrodd ar y VCS yn derbyn y gwasanaethau cywir.
- **Rhyddhau ar drwydded dros dro (ROTL)** - Mae carcharorion ambell waith yn cael mynd allan o'r carchar am gyfnod byr, weithiau dros nos. Y Gwasanaeth Carchardai sy'n trefnu hyn.

Ail-gategoreiddio carcharorion - Gall y Bwrdd Parôl gynnig cyngor i'r Ysgrifennydd Gwladol ar drosglwyddo carcharorion i garchardai agored (Categori D). Fodd bynnag, mater i Wasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi yw penderfynu trosglwyddo carcharor neu beidio, neu benderfynu ar unrhyw ail-gategoreiddio arall.

Rheoli'r carcharor ar ôl ei ryddhau ar drwydded - cyfrifoldeb y Gwasanaeth

Mwy o wybodaeth

Rhoddir mwy o wybodaeth am y broses barôl, a sut y gallwch fod yn rhan ohoni, ar ein tudalennau gwe yma:

<https://www.gov.uk/guidance/the-parole-boards-commitment-to-victims-of-crime>

If something goes wrong



Sut i gwyno

Bydd y Bwrdd Parôl yn gwneud ei orau i sicrhau eich bod yn cael eich trin gydag urddas a pharch drwy gydol y broses barôl.

Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, dylech drafod hyn gyda'ch VLO. Os byddwch yn penderfynu eich bod eisiau ysgrifennu atom a chwyno, mae'r wybodaeth am ein proses gwyno ar ein tudalennau gwe yma:

<https://www.gov.uk/government/organisations/parole-board/about/complaints-procedure>

Ni all y Bwrdd Parôl ddelio gyda chwynion am benderfyniad i ryddhau carcharor neu beidio. Gallwch ond herio'r penderfyniadau hyn drwy ofyn am Adolygiad Barnwrol yn yr Uchel Lys.

Checklist for the parole process



Dyma rai pethau i chi eu hystyried wrth fynd drwy'r broses barôl:



1

Holi eich VLO i sicrhau eich bod yn cael gwybod am unrhyw adolygiad parôl cyn gynted â phosib. Gallai cyflwyno VPS yn hwyr arwain at beidio ag ystyried eich datganiad.

2

Dechreuwch feddwl am beth yr hoffech ei ddweud yn eich VPS gan sicrhau bod gennych ddigon o amser i'w ysgrifennu cyn ei anfon at eich VLO. Gallech hyd yn oed ei ysgrifennu cyn cynnal adolygiad, a gallai eich VLO ddal eu gafael ynddo, neu gallech ddefnyddio un blaenorol.

3

Ydych chi'n fodlon i'r carcharor ddarllen eich VPS neu a ydych eisiau i'ch VLO wneud cais i beidio â datgelu? Cofiwch fod rheolau ar hyn.

4

Hoffech chi ofyn am unrhyw amodau ar y drwydded? Ydych chi wedi eu trafod gyda'ch VLO gan egluro pam fod eu hangen?

5

Os teimlwch yr hoffech fynychu gwrandawriad llafar (os oes un i'w gynnal) i ddarllen eich VPS allan eich hun, rhowch wybod cyn gynted â phosib am unrhyw ddyddiadau pryd y byddai'n annifyr iawn i chi fynychu, hyd yn oed os nad ydych yn siŵr a ydych eisiau mynychu – unwaith fydd dyddiad wedi'i benderfynu, mae'n annhebygol iawn o gael ei newid.

6

Ar gyfer gwrandawriad llafar yn unig - Meddyliwch am sut yr hoffech i'ch VPS gael ei gyflwyno. A ydych eisiau ei ddarllen allan eich hun, neu fynychu'r gwrandawriad i fod yn bresennol am y darlleniad? Neu a fyddai'n well gennych ei ddarllen o bell, neu ei recordio ymlaen llaw? Neu fod aelodau'r Bwrdd Parôl yn ei ddarllen eu hunain?

7

Ar gyfer gwrandawriad llafar yn unig – Meddyliwch a fyddwch am i'r carcharor fod yn bresennol pan fyddwch yn darllen allan eich datganiad – a chofiwch roi gwybod i'ch VLO.

8

Ar gyfer gwrandawriad llafar yn unig – Os bwriadwch deithio i'r carchar, a fydddech yn hoffi i rywun fynd gyda chi? Cofiwch, mae llawer o wrandawriadau'n cael eu cynnal o bell erbyn hyn ac nid yn y carchar.

9

Hoffech chi weld crynodeb o'r penderfyniad? Ydych chi wedi gofyn i'ch VLO ofyn am grynodedb?

